# CONTACT

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

Papur Newydd Ar Gyfer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful RHIFYN 41 1st AWST 2016 




# Ymunwch â'r frwydr yn erbyn tipio anghyfreithlon

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gwneud ei orau i lanhau'r Fwrdeistref Sirol – ond mae angen eich help chi arnom ni.**

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16 adroddwyd am 1,674 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon ym Merthyr Tudful o'i gymharu â 897 yn ystod y flwyddyn flaenorol - cynnydd anferthol o 86%.

Gyda gweithgaredd glanhau yn costio trethdalwyr Merthyr Tudful dros £50,000 y flwyddyn, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ymateb yn gyflym i geisio cael gwared â'r broblem.

Mae CBS Merthyr Tudful yn gweithio'n agos ag amrywiaeth o bartneriaid a grwpiau lleol fel Cadw Cymru'n Daclus, Cyfoeth Naturiol Cymru a Grŵp Cymunedol Pontsticill, ymhlith llawer mwy, i lanhau'r ardal leol. Yn ystod y misoedd diweddar cafodd tua 230 tunnell o wastraff ei dipio'n anghyfreithlon ac yna'i glirio o ardaloedd fel Heol Bogey, Gwarchodfa Natur Leol Taf Fechan a'r Dramffordd, Pontmorlais.

Ond phe na bai hynny'n ddigon – mae rhagor o sbwriel yn cael ei dipio cyn gynted ag yr ydym wedi ei glirio. Digon yw digon.

## Sut gallwch helpu

O ddydd Llun 18 Gorffennaf, bydd rhoi gwybod am droseddau tipio anghyfreithlon yn llawer haws. Bydd tudalennau newydd ar ein gwefan yn eich galluogi chi i ddefnyddio map i nodi ardal y drosedd, yn ogystal â rhoi gwybod i ni am faint o wastraff sydd wedi cael ei dipio a pha fath o wastraff yw e. I gyflwyno adroddiad ewch i www.merthyr.gov.uk/fly-tipping

Rydym hefyd wedi sefydlu tudalen Parêd ID newydd ble y gallwch ein helpu i adnabod pobl y credwn y gallant ein helpu ni â'n hymholiadau mewn perthynas â gwahanol fathau o droseddau gollwng sbwriel. Caiff y delweddau eu postio'n rheolaidd ynghyd â manylion y drosedd a gallwch ddewis enwi'r bobl gan aros yn ddienw eich hun. Er mwyn gweld ein Parêd ID ewch i www.merthyr.gov.uk/ID-Parade <http://www.merthyr.gov.uk/ID-Parade>

## Peidiwch â Thalu Masnachwyr Ffug i gymryd eich gwastraff

Gofynna'r Cyngor i breswylwyr hefyd ymddwyn yn gyfrifol wrth gael gwared ar wastraff. Wyddoch chi mai eich cyfrifoldeb CHI yw sicrhau bod eich gwastraff yn cael ei waredu'n gyfreithlon felly os daw masnachwr ffug i'w gasglu a'i fod yn diweddu wedi ei dipio'n anghyfreithlon, gallai archwiliad sy'n arwain yn ôl atoch chi olygu eich bod CHI'n cael eich erlyn yn ogystal â'r masnachwr ffug!

Er mwyn gwirio a ydych yn delio â chariwr gwastraff cyfreithlon ewch i: www.naturalresources.wales

Cofiwch: os ydych yn berchennog busnes mae'n ofyniad cyfreithiol i chi gael contract ar gyfer trosglwyddo, casglu a chael gwared ar eich gwastraff masnachol. Mae hefyd yn ofynnol eich bod yn cadw cofnodion ysgrifenedig o'r holl wastraff a gynhyrchir gan eich busnes am o leiaf dwy flynedd.

Os nad oes contract gennych ar hyn o bryd, gallwch un ai gysylltu â'r Cyngor ar (01685) 725363 i drefnu cael un, neu ddod o hyd i gyflenwr preifat amgen eich hun.

Am ragor o wybodaeth ewch i: https://www.gov.uk/managing-your-waste-an-overview

## Eitemau swmpus a Chanolfannau Gwastraff y Cartref ac Ailgylchu

Mae CBS Merthyr Tudful yn cynnig casglu eitemau swmpus na allwch eu hailgylchu na chael gwared arnynt yn eich bin olwynion. Am £15 am dair eitem, gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ar gyfer eitemau fel dodrefn mwy o faint ac eitemau trydanol fel peiriant golchi dillad, teledu, ac oergell-rewgell.

Neu gallwch gael gwared ag eitemau swmpus neu eitemau cartref y gellir eu hailddefnyddio drwy:

- eu rhoi i elusen leol neu'r gymuned leol, y sector gwirfoddol neu siopau ail law lleol
- gwerthu eitemau drwy hysbysebion am ddim
- rhoi eitemau i ffrindiau neu berthnasau
- defnyddio cwmni preifat sy'n cael gwared ar wastraff
- llogi sgip o gontractwr preifat

Mae gan y Cyngor hefyd Ganolfannau Gwastraff y Cartref ac Ailgylchu (y Ganolfan) yn Nowlais ac Aber-fan ble y gallwch adael eitemau na allwch eu rhoi mewn bin olwynion. Rhaid i unrhyw breswyliwr ym Merthyr Tudful sydd am ddod â gwastraff i'r Ganolfan mewn fan neu drelar wneud cais am drwydded, sydd am ddim. Nid oes angen trwydded ar geir na cherbydau 4x4 (heb gael eu seddi wedi eu tynnu allan o'r cefn).

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am y cynllun trwydded fan neu am gasgliadau swmpus o'n gwefan www.merthyr.gov.uk.

## Tir Preifat

Bydded hysbys mai dim ond oddi ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno y bydd y Cyngor yn symud gwastraff. Mae atal a chael gwared ar dipio anghyfreithlon yn gyfrifoldeb i berchennog y tir yn unig, ac nid oes rheidrwydd cyfreithiol ar GBS Merthyr Tudful i gael gwared ar wastraff wedi ei dipio'n anghyfreithlon o dir preifat, fodd bynnag, byddwn yn cynorthwyo, ble y bo'n bosibl, gydag archwiliadau. Os hoffech siarad â rhywun ynghylch tipio gwastraff yn anghyfreithlon ar eich tir cysylltwch (01685) 725000.

Dywedodd y Cynghorydd David Jones, Aelod Cabinet â Phortffolio dros Wasanaethau Cymdogol, ac Amddiffyn:

Hoffem ddiolch i'r preswylwyr hynny sydd wedi ein helpu i ymladd yn ôl yn erbyn y bobl nad ydynt yn gofidio am ein hamgylchedd nac am ddyfodol ein pobl ifanc. Gallwch fod yn sicr y byddwn yn parhau i geisio canfod y rhai sy'n gyfrifol am y pla hwn yn ein hardaloedd gwledig ac ar ein strydoedd, a byddwn yn eu herlyn.

> "Gofynnwn i chi nawr i'n helpu ni i adnabod y bobl sydd wedi eu dal ar CCTV a chyfryngau eraill, fel ein bod ni'n gallu canfod a ydyn nhw wedi cymryd rhan yn y digwyddiad ai peidio. "Gyda'n gilydd gallwn guro'r tipwyr anghyfreithlon. Beth am weithredu i greu Merthyr Tudful glanach a gwyrddach!"

**Fyddech chi'n gallu newid bywyd plentyn drwy faethu ar ran Merthyr, os felly cysylltwch:**

**Rhadffôn: 0800 678 3798 www.merthyr.gov.uk**



merthyrtydfilCBC Twitter @ merthyrCBC www.merthyr.gov.uk

## Arweinwyr Cflwyniad



### Croeso i Rifyn 41 o CYSWLLT

Fel y gwelwch, rydym ar hyn o bryd yn treialu ffordd newydd o ddarparu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd ledled y Fwrdeistref Sirol i'n preswylwyr. Gallwch ganfod rhagor am wedd newydd papur newydd y Cyngor ar dudalen xxx.

Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys amrywiaeth o bynciau o'n brwydr yn erbyn tipio anghyfreithlon i wybodaeth grêt am ddigwyddiadau i'r teulu sy'n digwydd ledled y Fwrdeistref Sirol.

Tra bo llawer o bethau i'w dathlu, teimlaf fod rhaid i mi fanteisio ar y cyfle hwn i sôn am yr effaith mae tipio anghyfreithlon parhaus yn ei gael ar ein Bwrdeistref Sirol o ran niweidio'n hamgylchedd. Mae'r Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i fynd i'r afael â'r broblem hon drwy raglenni glanhau sylweddol sy'n costio'r trethdalwr yn fwy na £50,000. Rhaid i ni gymryd rheolaeth o'r sefyllfa, ond mae angen eich help chi arnom ni!

Fel y gwelwch o'n herthygl ar y dudalen flaen, 'Ymunwch â'r frwydr yn erbyn tipio anghyfreithlon', rydym wedi rhoi mecanwaith cadarn mewn lle i ddal y troseddwyr a 'does dim amheuaeth y caiff y sawl sy'n troseddu eu herlyn!

Â'r cyfyngiadau ariannol y mae'r Cyngor hwn ynghyd â Chynghorau eraill ledled Cymru yn eu hwynebu, rwy'n falch o gyhoeddi ein bod ni, ar gyfer eleni (2016/17), mewn sefyllfa ariannol weddol dda. Cyflawnwyd hyn drwy waith caled yr holl staff yn y Cyngor ac ag ymgysylltiad rheolaidd gyda chi, defnyddwyr ein gwasanaethau.

Eto i gyd, rhagwelir y bydd cytundeb y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf (2017/18) oddi wrth Lywodraeth Cymru yn gweld cwtogi pellach o ran ariannu ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae hyn yn gadael y Cyngor mewn sefyllfa o orfod dynodi rhagamcan arbedion o £4.7 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Â chytundebau ein cyllideb yn cael ei gwtogi flwyddyn ar ôl blwyddyn, bydd angen i ni weithredu'n wahanol a bydd hynny'n golygu cwtogi rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Byddwn, fodd bynnag, yn parhau i ymgysylltu â'n cwsmeriaid yn gyson mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau a byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y gwasanaethau yr ydym yn eu cyflenwi i'r rhieni sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned.

Hyd yn oed â'r fath heriau i'r gyllideb, rhaid i ni symud ymlaen â'n cynlluniau i wella bywydau'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau. Fel arweinydd y Cyngor hwn, byddaf yn parhau i weithio'n agos at y 9 Arweinydd arall yn Rhanbarth Dinas Caerdydd i sicrhau ein bod ni'n gwneud y mwyaf o bob cyfle i genedlaethau'r dyfodol gan ddarparu gwell cysylltiadau trafnidiaeth a thwf economaidd drwy'r Ddêl Ddinesig gwerth £1.2bn.

Wrth i ni edrych o gwmpas ein Bwrdeistref Sirol, fe welwn yr adfywio anhygoel a gafwyd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi gweld £98 miliwn o fuddsoddiad yn cael ei sicrhau drwy ariannu UE a byddwn yn parhau i weithio'n agos at Lywodraeth Cymru a Sefydliad Llywodraeth Leol Cymru gan chwilio am ffynonellau amgen o ariannu ar gyfer pan fydd Prydain yn gadael Ewrop yn y pen draw.

Cafodd Merthyr Tudful ei thrawsnewid yn llwyr dros y degawd diwethaf ac rydym am barhau â'r daith hon o newid a chwilio am bob cyfle posibl i wella ein Bwrdeistref Sirol. Yn bendant, mae Merthyr Tudful yn lle i fod yn falch ohono!

# Gwobr i glwb sydd am wneud Merthyr Tudful yn 'iachach ac yn hapusach'

Mae Clwb Rygbi Merthyr wedi derbyn gwobr o £500,000 i helpu i wella iechyd preswylwyr lleol drwy agor ei gyfleusterau i'r gymuned i gyd.

Caiff grant oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a reolir gan Gronfa Gymunedol Ffos-y-fran tuag at brif raglen ailddatblygu ei gefnogi gan brosiect newydd y clwb New Shoots: Grassroots.

Nod y prosiect tair blynedd yw annog plant a phobl ifanc ac anabl i gymryd rhan mewn chwaraeon, yn ogystal â chyflwyno rygbi merched i'r dref.

Bydd yr estyniad £1.3 miliwn yn arwain at adeiladu eisteddle i 700, maes chwarae bob tywydd, llif oleuadau, ystafelloedd newid i ddynion a menywod, cyfleusterau codi pwysau a chanolfan ieuenctid ddynodedig. Dechreuodd y gwaith yn gynnar ym mis Mai, ac fe ddylai fod wedi ei gwblhau erbyn mis Medi.

> "Nod yr ailddatblygu yw darparu cyfleusterau gall y gymuned i gyd eu defnyddio, a gwneud y gymuned honno'n heini, iach a hapus. Ac rydym ni'n falch iawn o allu cefnogi cais y Clwb oherwydd ei uchelgais a'i gynllun i integreiddio ei gyfleusterau ledled y gymuned."

Caiff plant a phobl ifanc eu targedu drwy raglen recriwtio ysgolion yn cynnwys sesiynau blas ar rygbi, cystadlaethau bach a gweithgareddau ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau wedi eu hyrwyddo mewn ysgolion yn y tri chlwstwr Cymunedau yn Gyntaf sef y Gogledd (Gurnos), Canol (Trefechan a Gellideg) a'r De (Ynys Owen a Threharris).

Cafodd Cronfa Gymunedol Ffos-y-fran ei sefydlu gan gwmni mwyngloddio lleol, Miller Argent ac yn ôl Rheolwr Gyfarwyddwr y cwmni, Neil Brown:

***"Mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn helpu plant a phobl ifanc i wella eu hyder, hunan barch, cymhelliant a dyheadau. Mae'n annog cyfeillgarwch newydd a sgiliau***





# Lle chwech ym Mhontsicill!

Gall ymwelwyr â Phontsticill fynd i'r lle chwech mewn steil bellach yn dilyn dadorchuddio toiledau cyhoeddus y pentref ar eu newydd wedd.

Mae'r gymuned yn denu cerddwyr, seiclwyr, hwylwyr, pysgotwyr a phicnicwyr i'w chronfeydd dŴr a golygfeydd prydferth, ond cafodd y toiledau cyhoeddus eu cau tua phedair blynedd yn ôl yn sgil cwtogi ariannol. Cafodd y toiledau eu hagor yn swyddogol gan aelodau ward leol y Cyngor Bwrdeistref Sirol a Lisa Mytton yn dilyn ymgyrch codi arian gan GrŴp Cymunedol Pontsticill i'w hailaddurno a'u cynnal a chadw. Ynghyd â gwerth £1,500 o roddion, helpodd grant o £5,000 oddi wrth y Cyngor Bwrdeistref Sirol, a reolir gan Gronfa Buddiannau Cymunedol Ffos-y-fran, y grŵp cymunedol i gyrraedd ei darged. Dim ond blwyddyn sydd ers ffurfio'r grŵp cymunedol gan 30 o breswylwyr lleol ac mae wedi sefydlu grŵp rhieni a phlant bach, prynu offer chware, mynd i'r afael â sbwriel a gordyfiant coed a gwrychoedd a phlannu bylbiau, coed newydd a blodau'r haf.

"Mae'r pentref yn lle prysur iawn, gyda thwristiaid o bob rhan o'r byd," dywedodd Ysgrifennydd y grŵp cymunedol, Ann Williams. "Ond cafodd yr ardal ei hesgeuluso'n fawr. Ein cenhadaeth yw cyflawni'r gwaith, nid yn unig i wella'r amgylchedd i bawb ond hefyd i adfer balchder yn y pentref.

Dywedodd y Cynghorydd BrendanToomey :

"Hoffwn longyfarch Grŵp Cymunedol Pontsticill am eu menter wrth wella a chymryd cyfrifoldeb dros rai o'r cyfleusterau yn eu hardal. "Gyda rhaglen lymder y Llywodraeth yn parhau i gwtogi arian gwasanaethau cyhoeddus, yr unig ffordd o gynnal a chadw cyfleusterau fel y rhain fydd drwy




# Ystyried tynnu'ch plentyn o'r ysgol yn ystod y tymor?

Yn dilyn dyfarniad llys diweddar a oedd yn ymateb i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am gymryd gwyliau yn ystod y tymor, cafwyd llawer o ymholiadau ynghylch absenoldeb yn ystod y tymor.

Er mwyn egluro'r sefyllfa i rieni/gofalwyr, mae'r sefyllfa'n parhau fel a ganlyn;

Gellir ystyried Hysbysiad Cosb Benodedig yn ôl disgresiwn y Pennaeth o dan yr amgylchiadau canlynol;

- Pan fo o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) wedi eu colli yn sgil unrhyw absenoldeb diawdurdod yn ystod y tymor cyfredol. Nid oes raid i'r dyddiau fod yn olynol.
- Pan fo o leiaf 10 sesiwn o gyrraedd yn hwyr yn barhaus yn ystod y tymor cyfredol.

Bydd methu â thalu'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn arwain at gyfeirio'r achos at yr Adran Gyfreithiol. Yna caiff yr achos ei ystyried gan y Llys Ynadon o dan Ddeddf Addysg 1996.

Gellir cael manylion llawn am brotocol a gweithdrefn oddi wrth eich ysgol neu'r Awdurdod Lleol. http://www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/attendance/

COOPER Healey
Accountants

Your Problems:
- Paying too much tax
- HMRC red tape
- Taking the next step
- Service & Fees

Our Solutions:
- Tax Planning
- Compliance
- Advisory
- Business Growth

Chartered Certified Accountants & Business Advisors
Tel. 01685 382599
cooperhealey.co.uk www.cooperhealey.co.uk







# Llwyddiant ysgubol i flwyddyn gyntaf Gradd Anrhydedd BA Astudiaethau Busnes

Mae myfyrwyr sy'n astudio'r Cwrs Gradd BA Astudiaethau Busnes newydd yng Ngholeg Merthyr Tudful wedi llwyddo i gyflawni canlyniadau rhagorol ym mlwyddyn gynta'r radd â chyfradd llwyddo cyffredinol o 92 % a thros 25 % o fyfyrwyr yn ennill gradd anrhydedd dosbarth 1af.

Cafodd y Radd Anrhydedd BA Astudiaethau Busnes ei chyflwyno yn 2015, a'i nod yw' darparu llwybr dilyniant i ddysgwyr lleol sydd am hybu eu rhagolygon gyrfa neu gyflogeion sy'n chwilio am fodd o ddatblygu eu sgiliau busnes ymhellach.

Dyfarnwyd gradd anrhydedd dosbarth cyntaf i'r myfyrwyr Malgorzata Stoncel a Beata Smolinska. Gwnaeth Malgorzata y sylw ***"Mae cael y llwybr dilyniant hwn yn lleol wedi gwneud y byd o wahaniaeth i fy rhagolygon yn y dyfodol gan ei fod wedi fy ngalluogi i i astudio ymhellach heb orfod poeni am deithio i'r brifysgol."***

Ochr yn ochr â'r Radd Anrhydedd BA Astudiaethau Busnes, mae'r coleg yn cynnig amrywiaeth o 18 o gyrsiau lefel prifysgol sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr lleol i allu gwella eu rhagolygon heb y pwysau ychwanegol o symud i ffwrdd o'u cartref neu deithio i brifysgol gyfagos. Mae ein portffolio addysg uwch yn cynnwys nifer o gymwysterau gradd sylfaen a chymwysterau proffesiynol. Yn newydd ar gyfer 2016, mae'r coleg hefyd yn cyflwyno cymhwyster Paratoi ar gyfer Addysgu. Mae'r cwrs byr hwn wedi ei anelu at bobl gymwysedig proffesiynol a phrofiadol nad ydynt o bosib yn addysgu neu'n dysgu ar hyn o bryd, ond sy'n awyddus i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau a fyddai yn eu galluogi nhw i wneud hynny.

Mae'r amrywiaeth cynhwysfawr hwn o gyrsiau ynghyd â chyfleusterau o'r radd flaenaf sydd gan y coleg, cymorth dysgwyr ac adnoddau yn darparu'r amgylchedd perffaith i'r rheini sy'n ceisio cyflawni cymhwyster addysg uwch. Yn 2015, roedd 83 % o'n myfyrwyr addysg uwch yn fodlon â'u profiad yn y coleg sy'n dystiolaeth i'r addysgu a'r dysgu ffantastig a'r cymorth y mae'r tiwtoriaid yn ei ddarparu.

Mae'r holl gyrsiau addysg uwch yn cael eu dilysu gan Brifysgol De Cymru sy'n golygu y gall y dysgwyr hefyd brofi'r holl fuddion ac adnoddau sydd ar gael ym Mhrifysgol De Cymru. Yn ychwanegol at hyn, mae gennym amrywiaeth o fwrsariaethau ac ysgoloriaethau i helpu â chostau astudio.

Felly, p'un a ydych newydd orffen eich Lefelau A neu gwrs galwedigaethol a'ch bod am ddychwelyd i addysg ar ôl egwyl, neu os ydych yn cynllunio newid gyrfa, yna mae'n bosibl bod gan Goleg Merthyr Tudful yr union gyfle yr ydych yn chwilio amdano. Am ragor o wybodaeth dewch i mewn i'n gweld ddydd Iau 18 Awst 9.00am - 4.00pm neu ewch i www.merthyr.ac.uk <http://www.merthyr.ac.uk>



www.merthyr.ac.uk

# Mae gwefan Dewis Cymru yn darparu gwybodaeth ynghylch lles yng Nghymru

Nid yw bob amser yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth gywir, ar yr adeg gywir, wedi ei chyflwyno yn y ffordd gywir. Nod gwefan Dewis Cymru yw eich helpu, drwy ddarparu gwybodaeth o ansawdd oddi wrth rwydwaith o sefydliadau gofal cymdeithasol, iechyd a thrydydd sector ledled Cymru.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch eich lles cyffredinol – efallai'ch bod chi'n cael trafferth byw yn annibynnol yn eich cartref neu nad yw'ch tŷ yn gweddu eich anghenion – mae Dewis Cymru yno i'ch helpu chi, eich teulu a'ch gofalwyr gyda mynediad at wybodaeth.

**Pam fod angen Dewis Cymru ?**

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi rhagor o bwyslais ar roi help a chefnogaeth i bobl yn gynnar, fel nad ydyn nhw'n cyrraedd pwynt ble y rhoddir eu lles mewn risg. Mae'r gyfraith newydd yn cydnabod mai unigolion yw'r beirniaid gorau o'u hanghenion lles a sut i ymateb iddynt orau.

Mae cyngor a gwybodaeth dda ynghylch beth sydd ar gael yn eich ardal a sut i gael mynediad at wasanaethau yn allweddol a dyma ble y daw Dewis Cymru i'r adwy. Cafodd Dewis Cymru ei gynllunio i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud dewisiadau a chymryd rheolaeth. Drwy Dewis Cymru bydd gennych fynediad at amrywiaeth o wybodaeth yn eich ardal a all eich helpu i ddelio â'r pethau sy'n bwysig i CHI.

Dewis Cymru

**Ymwelwch â gwefan Dewis Cymru heddiw - www.dewis.wales**

# Wythnos Ddiogelu 2016

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Cwm Taf, yn cynllunio ei ail Wythnos Ddiogelu flynyddol, i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn. Mae Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Cwm Taf yn grwpiau statudol sy'n cynnwys amrywiaeth o asiantaethau i sicrhau fod plant ac oedolion mewn risg yn cael eu hamddiffyn.

Roedd yr Wythnos Ddiogelu gyntaf fis Tachwedd y llynedd yn llwyddiant, gydag wythnos o ddigwyddiadau wedi eu hanelu at bobl broffesiynol a'r cyhoedd, yn cynnwys sioe deithiol yng Nghanol y Dref ble yr ymgysylltodd aelodau o'r staff â'r gymuned a'u hysbysu o'r hyn yw Diogelu a'r hyn y gallant ei wneud os oedden nhw'n meddwl bod plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed.

Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom yn ein cymunedau i siarad allan ar ran pobl sy'n agored i niwed fel y gallant fyw'n rhydd oddi wrth ofn a niwed.

**Beth ddylech chi ei wneud?**

Os ydych yn pryderu am oedolyn ffoniwch 01685 724539 Llun – Gwener 8:30–4:30

Ar gyfer plentyn neu berson ifanc ffoniwch 01685 725000 Llun – Gwener 8:30–4:30

I blant ac oedolion y tu allan i oriau swyddfa a thros benwythnosau 01443 743665

Os ydych yn meddwl bod rhywun mewn risg dybryd ffoniwch 999

Beth ddylech chi'n ei wneud os ydych yn rhedeg neu'n trefnu grŵp i blant, pobl ifanc ac oedolion mewn risg?

- Wrth recriwtio staff a gwirfoddolwyr gwnewch yn siŵr eich bod yn gweithredu hynny'n ddiogel
- Sicrhewch fod gennych bolisi diogelu cyfredol y mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn ei adnabod yn dda
- Rhowch hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n poeni ynghylch beth i'w wneud os ydyn nhw'n poeni bod plentyn neu oedolyn mewn risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth a chyngor ar wefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf - **www.cwmtafsafeguarding.org**

Neu'r gwefannau canlynol:

- www.vamt.net – Gweithredu Gwirfoddol , Merthyr Tudful
- www.safenetwork.org.uk – gwybodaeth am bob agwedd o ddiogelu
- www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/safeguarding/writing-a-safeguarding-policy - ysgrifennu polisi diogelu
- www.ccpas.co.uk - cyngor am ddiogelu ar gyfer eglwysi a grwpiau crefyddol






## Aelodau o'r Cabinet yn pleidleisio yn erbyn ceisiadau i leihau darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid yng ngogledd Merthyr Tudful

Ym mis Chwefror 2016, gofynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ddefnyddwyr ei Wasanaeth Ieuenctid ac aelodau o'r cyhoedd beth oedd eu barn am geisiadau i derfynu darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid statudol y Cyngor yng Nghlwstwr y Gogledd, Merthyr Tudful (Gurnos, Galon Uchaf, Dowlais a Phenydarren).

Ac mewn cyfarfod ddydd Mercher 15 Mehefin, ystyriodd Aelodau Cabinet CBS Merthyr Tudful sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad 13 wythnos a phleidleisio yn erbyn y cais.

Dywedodd y Cynghorydd Harvey Jones, Aelod o'r Cabinet â Phortffolio ar gyfer Dysgu: "Fel Awdurdod, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu ac ymgynghori â'n preswylwyr fel eu bod yn ffurfio rhan o'r broses o ddod i benderfyniad. Dangosodd canlyniad yr ymgynghoriad cymunedol yn glir nad oedd 78 % o'r cyhoedd yn cytuno â'r cais.

"Roedd pobl ifanc ein cymuned yn arbennig o angerddol a phroffesiynol wrth leisio eu safbwyntiau a dylent ymfalchïo yn eu hymddygiad drwy gydol y broses.

"Hoffwn ddiolch i bob un person a gymerodd amser i gwblhau arolwg a gallwn sicrhau preswylwyr y byddwn yn gwrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud."

Ychwanegodd y Cynghorydd Brendan Toomey, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful: "Yn y cyfarfod ar 15 Mehefin, ystyriodd y Cabinet yn ofalus y materion a godwyd gan randdeiliaid yn ystod y broses ymgynghori a chytuno i gadw'r ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid presennol. Rydw i wrth fy modd, o ystyried y pryderon a godwyd, ein bod ni wedi gallu ymateb yn gadarnhaol."

# Gwaith Traphont Fiddler's Elbow

**Bydd rhaglen waith atgyweiriadau hanfodol i Draphont Fiddler's Elbow yn dechrau ar 8 Awst 2016 ac yn parhau am tua 14 wythnos.**

Bydd hyn yn peri bod y Draphont yn cael ei chau yn rhannol a llwybr dargyfeiriol yn cael ei osod mewn lle ar hyd yr A4054 rhwng Cylchfan Fiddler's Elbow a Chylchfan Pentrebach. Mae'r Draphont o dan gydberchnogaeth Cynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf (CBSMT a CBSRhCT), a byddant yn rhannu'r gost o £2 filiwn yn gyfartal i atgyweirio'r strwythur.

Bu cynrychiolwyr o CBSMT a CBSRhCT mewn trafodaethau â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru (LlC) ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru ynghylch yr effaith gaiff y gwaith ar gefnffordd yr A470 a pha opsiynau fyddai'n peri'r lleiaf o aflonyddu ar lif traffig ar yr A470.

Yr opsiwn a ffafrir yw i ddim ond caniatáu i draffig sy'n dod o'r A470 i deithio dros Draphont Fiddler's Elbow, â'r holl draffig sydd am deithio ar yr A470 i ddilyn y llwybr dargyfeiriol ffurfiol.

Ar ôl penderfynu ar yr opsiwn hwn, yr her nesaf oedd isafu'r oedi a fyddai'n cael ei achosi i'r traffig a gaiff ei ddargyfeirio o Gylchfan Fiddler's Elbow i'r de a'r gogledd (oddi wrth a thuag at Gylchfan Pentrebach ar A4054).

Bydd traffig sy'n bwriadu teithio tua'r gorllewin a'r gogledd ar hyd yr A470 yn cael ei ddargyfeirio i'r gogledd ar hyd yr A4054. Yn glir, bydd y cynnydd hwn mewn traffig yn cael effaith sylweddol ar y llwybr dargyfeiriol. Er mwyn isafu'r effaith, cynigiwyd bod Gorchymyn Clirffordd dros dro yn cael ei gyflwyno, a fyddai mewn grym rhwng 7am a 6pm ddydd Llun tan ddydd Sadwrn ac yn gweithredu rhwng Cylchfan Fiddler's Elbow a Chylchfan Pentrebach tra bo'r dargyfeiriad yn weithredol. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw gerbyd yn gallu parcio na stopio ar y ffordd hon.

Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra a achoswyd. **Cysylltwch â customer.care@merthyr.gov.uk neu (01685) 725000** os oes gennych unrhyw gwestiynau neu cysylltwch â'ch Cynghorydd lleol.




# Ei Theilyngdod Y Maer, Y Cynghorydd Margaret Davies 2016 - 2017

**Cafodd y Cynghorydd Margaret Davies ei hurddo i'w swydd fel Maer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar 18 Mai 2016. Mae hi wedi cynrychioli Adran Etholiadol Cyfarthfa ers mis Tachwedd 2012 yn dilyn isetholiad.**

Mae Margaret wedi bod yn Llywodraethwr Ysgol mewn pedwar sefydliad gwahanol yn y Fwrdeistref Sirol. Roedd hi'n Gadeirydd y Llywodraethwyr ym Meithrinfa Trefechan am bedair blynedd, yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd y Graig yng Nghefn Coed am 10 mlynedd, yn Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cyfarthfa ac yn Llywodraethwr yn Ysgol Coed-y-Dderwen yng Ngellideg am 8 mlynedd. Ar hyn o bryd mae hi'n Ddirprwy Gadeirydd y Llywodraethwyr. Cafodd ei phenodi ar Bwyllgor Craffu Ysgolion ac mae hi hefyd yn cynrychioli'r Cyngor fel ymddiriedolwr gyda CAB.

Fel Dinesydd Cyntaf Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mae dyletswyddau'r Cynghorydd Davies yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd llawn y Cyngor a chynrychioli'r Cyngor mewn achlysuron ffurfiol a seremonïol oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd hi'n croesawu ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol ac yn mynychu digwyddiadau chwaraeon a drefnir gan bobl leol a sefydliadau lleol.

Yn ystod ei blwyddyn yn y swydd, bydd y Maer yn brysur yn codi arian i'w helusen ddewisedig, sef Ysbyty'r Tywysog Siarl. Bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at brynu offer hanfodol i'r ysbyty. Bydd

Golden Charter
Later Life Planning
DJ PROTHEROE & SONS LTD
The family run funeral directors
Telephone
07545 006922 or 01685 385842
Riverside Funeral Home . 1 Nantygwenith Street . Merthyr Tydfil . Mid Glamorgan . CF48 1DE
NATIONAL SAIF INDEPENDENT FUNERAL DIRECTORS

### WYDDOCH CHI BETH I'W ROI YN EICH CYNWYSYDDION AILGYLCHU?

Mae'r casgliadau ailgylchu newydd wedi bod yn weithredol ers blwyddyn bellach. Mae ansawdd y deunydd sy'n cael ei gasglu gan yr awdurdod lleol wedi gwella'n fawr felly diolch i'r preswylwyr hynny sy'n cymryd rhan. Mae rhai preswylwyr, fodd bynnag, yn parhau i osod y deunydd anghywir yn eu cynwysyddion.

### PAM NA ALLWN GASGLU DEUNYDD NAD YDYM AM EI GASGLU

Ni all y Cyngor dderbyn bagiau plastig yn cynnwys bagiau bara a bagiau bwyd wedi rhewi, pacedi creision a phlastig ffilm. Os yw'r mathau hyn o ddeunydd yn cael eu gosod yn eich cynhwysydd ailgylchu, maen nhw'n gostwng ansawdd y deunydd sy'n cael ei dderbyn.

Os oes gennych blastig lapio neu blastig ffilm na allwch ei osgoi, rhowch yn eich bin olwynion. Rhaid hefyd osod bagiau cario yn eich bin olwynion. Mae pob bag cario yn costio 5c felly arbedwch beth arian a'u hailddefnyddio.

Mae rhai archfarchnadoedd yn cynnig cynllun derbyn bagiau yn ôl ar gyfer bagiau nad ydych am eu cadw.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n golchi'r holl gynwysyddion a ble y bo'n bosibl, gwasgwch nhw at ei gilydd i arbed lle.
Nodwch isod beth sy'n gallu cael ei ailgylchu fel rhan o'ch casgliadau wythnosol a beth na all gael ei ailgylchu.

## SACHAU GLAS AMLDRO



### CESGLIR BOB WYTHNOS

**DERBYNIWN!**

- Poteli plastig e.e. llaeth, diod, poteli siampŵ
- Cynwysyddion bwyd e.e. potiau iogwrt, tybiau margarîn
- Hambwrdd bwyd (e.e. hambwrdd bwydydd parod)
- Pynet
- Hambwrdd ffoil a chynwysyddion heb fwyd
- Caniau bwyd a diod (heb fwyd na hylifau)
- Aerosolau (gwag)

**DIM DIOLCH!**

- Bagiau Plastig (yn cynnwys bagiau cario, bagiau bwyd wedi rhewi, ayb)
- Ffilm blastig/cling ffilm/ plastig lapio e.e. losin a bisgedi
- Pacedi creision/ papur â chefn ffoil e.e. pocedi ffoil
- Swigod lapio
- CD/DVD a châs fideo
- Polystyren
- Teganau a phlastig (rhowch i siop elusen os yw'r cyflwr ddigon da)
- Cambrenni cotiau
- Potiau planhigion
- Paent chwistrell, canisteri nwy

## BLYCHAU AILGYLCHU

### CESGLIR BOB WYTHNOS

Bydd dau flwch ailgylchu gan bob cartref, un ar gyfer papur ac un ar gyfer poteli a jariau gwydr a chardfwrdd.

Mae pob blwch ail-gychlu newydd yn ddu, ond gallwch barhau i ddefnyddio'ch blwch ailgylchu gwyrdd.



### BLWCH AILGYLCHU – PAPUR

**DERBYNIWN!**

- Papurau newydd a chylchgronau
- Llyfrau ffôn
- Catalogau
- Post sothach (yn cynnwys amlenni)
- Derbyniwn ychydig o garpion papur ar y tro ond rhaid eu gosod mewn bagiau cario clir

**DIM DIOLCH!**

- Papur wal*
- Papur lapio*
- Hancesi papur*
- Tywelion papur*
- Papur cegin

### BLWCH AILGYLCHU – POTELI A JARIAU GWYDR, CARDFWRDD

**DERBYNIWN!**

- Blychau cardfwrdd gwastad
- Cardfwrdd ar gyfer pacio
- Cartonau bwyd a diod (pecynnau Tetra)
- Poteli a jariau gwydr

**DIM DIOLCH!**

- Ceramig, gwydrau yfed a pyrex
- Chwareli gwydr
- Bylbiau golau
- Gwydr wedi torri
- Cardfwrdd budr gan fwyd

# Asesiad Poblogaeth a Llesiant



Mae'r Cyngor, ynghyd â'i bartneriaid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Cwm Taf, yn cyflawni asesiadau ar hyn o bryd ar lesiant y gymuned fel rhan o ddau ddarn newydd o ddeddfwriaeth bwysig sydd wedi eu cyflwyno'n ddiweddar – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r **Asesiad Poblogaeth** yn ofynnol fel rhan o'r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** newydd, a bydd yn asesu anghenion o ran gofal a chefnogaeth, ac anghenion cefnogi gofalwyr.

Mae'r **Asesiad Llesiant** yn ofynnol fel rhan o **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** ac mae canllawiau statudol ar y Ddeddf wedi gosod allan bod Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus mewn maes yn gorfod bod yn barod i gyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn ei faes.

Mae angen i'r Cyngor ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn gwneud yr asesiadau hyn yn ystyrlon a dyma ble y mae angen eich help chi arnom ni.

Mae'r holiadur byr ar gael ar wefan y Cyngor (www.merthyr.gov.uk) a Chanolfan Ymgysylltu â'r Gymuned Cwm Taf (www.cwmtafhub.com )ble y gellir eu cwblhau ar-lein. Maen nhw hefyd ar gael i'w casglu o'r Ganolfan Ddinesig ac adeiladau cyhoeddus eraill, fel Canolfan Hamdden Merthyr Tudful, Red House a Llyfrgelloedd Canolog a Dowlais.

Neu, gallwch ffonio (01685) 725052 i ofyn am gopi i gael ei anfon atoch ynghyd ag amlen radbost i chi ddychwelyd yr holiadur am ddim.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Boblogaeth a / neu Asesiad Llesiant, cysylltwch â corporate.communications@merthyr.gov.uk (01685) 725052.

# Croeso i gyhoeddiad CYSWLLT ar ei newydd wedd.

Er mwyn gostwng costau a chynyddu'n hymgysylltiad â chi – ein preswylwyr, dros y tri mis nesaf, byddwn yn treialu ffordd newydd o drosglwyddo newyddion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn uniongyrchol at eich drws.

Bydd gwedd newydd CYSWLLT yn cynnwys hysbysiadau i'r Cyhoedd a rhai Cyfreithiol felly gwyliwch allan amdanynt yn y tudalennau canol.

Bydd CYSWLLT hefyd yn cynnwys rhai hysbysebion sy'n helpu i gefnogi'r cyhoeddiad hwn, felly os oes diddordeb gennych mewn hysbysebu yn CYSWLLT, ewch i dudalen xxxx am wybodaeth bellach neu ewch i www.merthyr.gov.uk/adverts

Rydym am i chi ein preswylwyr wybod beth sy'n digwydd ledled y Fwrdeistref Sirol a'r hyn sy'n bwysig i chi. Rhowch wybod i ni beth yw eich barn am CYSWLLT ar ei newydd wedd a pha wybodaeth yr hoffech ei gweld ynddo. Mae holiaduron adborth ar gael ar wefan y Cyngor www.merthyr.gov.uk or alternatively, gallwch ffonio 01685 725052/725087/725166 i ofyn am gopi papur.




## Ydych chi am hysbysebu eich busnes, gwasanaeth, nwyddau neu ddigwyddiad yn CYSWLLT?

### Sut fydd yn gweithio i chi?

- Dosbarthu'n fisol i bob cartref yn y Fwrdeistref Sirol
- Copïau ar gael mewn canolfannau hamdden, canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd, Coleg Merthyr Tudful a busnesau bach eraill yng nghanol y dref.
- Cyhoeddir ar wefan y Cyngor www.merthyr.gov.uk ac ar safle Facebook a Twitter y Cyngor.
- Cwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Darpariaeth sy'n gyfle cost effeithiol i fusnesau a grwpiau lleol gyrraedd tua **29,000 o gartrefi a chwsmeriaid posibl.**

### Prisiau hysbysebu yn CYSWLLT

(amcangyfrif yw pob maint a roddir):

- Baner tudalen flaen – £500+TAW
- Hanner tudalen - £500+TAW
- 1/4 tudalen - £250+TAW
- 1/6 tudalen - £200+TAW
- 1/10 tudalen - £150+TAW

Am ragor o wybodaeth am hysbysebu yn CYSWLLT, ffoniwch y Tîm Cyfathrebu ar 01685 25052/725087/725166 neu e-bost: Corporate.communications@merthyr.gov.uk




Er y gall hysbysebion a delir ymddangos yn CYSWLLT mewn print, ar-lein neu ar ffurf electronig arall, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn arnodi'r , nwyddau, gwasanaeth neu gwmni a hysbysebir nac unrhyw un o'r honiadau y mae'r hysbyseb yn eu gwneud.




## Dweud eich dweud

Bydd arolwg newydd CBS Merthyr Tudful ar gyfer preswylwyr yn rhedeg o fis Awst tan fis Hydref, 2016.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi ddweud eich barn wrthym am ble'r ydych chi'n byw a pha mor fodlon ydych chi â gwasanaethau'r Cyngor.

Yn yr arolwg hwn, mae diddordeb penodol gennym ganfod sut y gallwn wella lles y bobl sydd ag angen gofal a chefnogaeth arnynt yn ein cymunedau. Byddwn hefyd yn gofyn rhai cwestiynau cychwynnol am y gyllideb, a bydd y canlyniadau'n cael eu bwydo i ymgyrch gwariant y Cyngor yn yr hydref.

Bydd yr arolwg ar gael i'w gwblhau ar-lein ar www.merthyr.gov.uk a bydd copïau papur ar gael yn adeiladau'r gymuned ledled y Fwrdeistref Sirol.

# Hysbysiadau Cyhoeddus

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ — wales@pins.gsi.gov.uk — Crown Buildings, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

HYSBYSIR DRWY HYN Y BYDD

**AROLYGYDD A BENODIR GAN Weinidogion Cymru YN BRESENNOL YN**
Ystafelloedd 3 a 4, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful
AR
Ddydd Mercher 28 Medi 2016 am 10 a.m.
ER MWYN CYNNAL YMCHWILIAD LLEOL CYHOEDDUS AC I BENDERFYNU WEDI HYNNY:

**GORCHYMYN DIDDYMU LLWYBR CYHOEDDUS -(LLWYBR TROED RHIF 25 Y FAENOR)– CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL 2014**

Effaith y Gorchymyn, os caiff ei gadarnhau heb addasiadau, fydd diddymu'r llwybr troed sy'n dechrau yn y Stryd Fawr Uchaf (hen gefnffordd yr A470), Cefn Coed, ac sy'n arwain i gyfeiriad cyffredinol ddeheuol i Lôn Job fel y dangosir ar Fap y gorchymyn.

Diben yr Ymchwiliad yw galluogi'r Arolygydd i glywed sylwadau gan y personau hynny sydd wedi gwrthwynebu'r Gorchymyn. Gall unrhyw berson arall â buddiant fynychu hefyd a chaniateir iddynt siarad yn ôl disgresiwn yr Arolygydd.

Gall unrhyw berson sy'n dymuno gweld y datganiadau achos a dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwn wneud hynny drwy apwyntiad yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr, Yr Adran Gyfreithiol, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, yn ystod oriau swyddfa arferol. (Cyswllt y cyngor: Geraint Morgan, ffôn: 01685 725301 – e-bost geraint.morgan@merthyr.gov.uk.)

**Isabel Nethell**
Awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru

-------------------------------------

**HYSBYSIAD O ORCHYMYN ADDASU**

Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

**MAP A DATGANIAD DIFFINIOL BWRDEISTREF MERTHYR TUDFUL CYNGOR SIROL MORGANNWG GANOL GYNT GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL 6 YNYSOWEN 2016**

Bydd y Gorchymyn uchod a wnaed ar 26 Gorffennaf 2016, pe cadarnheir ei wneud, yn addasu map a datganiad diffiniol yr ardal trwy ychwanegu atynt lwybr troed sy'n dechrau ar gyfeirnod grid SO08480020 ac yn parhau ar hyd arwyneb naturiol am tua 105 metr i gyfeiriad cyffredinol dde-ddwyreiniol gan derfynu wrth gyfeirnod grid SO08530011. Y lled yw 3 metr.

Mae copi o'r Gorchymyn a map y gorchymyn ar gael i'w gweld am ddim yn Uned 5, Parc Busnes Triongl, Merthyr Tudful CF48 4TQ rhwng 0900 a 1700 ddydd Llun i ddydd Gwener. Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn a'r map yno am £10.

Mae'n rhaid anfon unrhyw sylwadau neu wrthwynebiad i'r Gorchymyn yn ysgrifenedig at y person a enwir isod erbyn 13 Medi 2016, a gofynnir i ymgeiswyr nodi'r rhesymau dros wneud.

Os na cheir unrhyw sylwadau neu wrthwynebiad i'r Gorchymyn, neu unrhyw ran ohono, neu os tynnir unrhyw sylw neu wrthwynebiad yn ôl, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cadarnhau'r Gorchymyn yn hytrach na'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Os bydd y Gorchymyn yn cael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd unrhyw sylwadau neu wrthwynebiad a dynnwyd yn ôl yn cael eu hanfon hefyd.

**Dyddiedig** 1 Awst 2016

**C M Kennedy,**
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,
Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell,
Merthyr Tudful, CF47 8AN

-------------------------------------

**HYSBYSIAD O GADARNHAU GORCHYMYN ADDASU DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL 30 YNYS OWEN 2015**

Ar 26 Gorffennaf 2016 cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y Gorchymyn uchod o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Caiff ei gadarnhau mai effaith y Gorchymyn fydd addasu'r Map a Datganiad Diffiniol ar gyfer yr ardal drwy ychwanegu atynt lwybr troed sy'n dechrau wrth gyfeirnod grid SO08020123 ac yn parhau ar hyd arwyneb glaswellt am tua 95 metr gan derfynu wrth gyfeirnod grid SO08090118.

Mae copi o'r Gorchymyn a Map y Gorchymyn ar gael i'w gweld am ddim yn Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ rhwng 0900 a 1700 ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn a'r map yno am £10.

Daeth y Gorchymyn i rym ar 26 Gorffennaf 2016 ond os oes unrhyw berson a dramgwyddwyd gan y Gorchymyn am gwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth sy'n gynwysedig ynddo ar y sail nad yw oddi fewn i bwerau Deddf Bywyd Gwyllt Chefn Gwlad 1981 neu ar y sail nad yw'n cydsynio ag unrhyw ofynion unrhyw Ddeddf neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gall e neu hi, o dan baragraff 12(1) Atodlen 15 y Ddeddf, wneud cais i'r Uchel Lys ymhen 6 mis o 1 Awst 2016.

**Dyddiedig** 1 Awst 2016

**C M Kennedy,**
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,
Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell,
Merthyr Tudful, CF47 8AN

-------------------------------------

**HYSBYSIAD O GADARNHAU GORCHYMYN ADDASU DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL 204 TROEDYRHIW 2015**

Ar 26 Gorffennaf 2016 cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y Gorchymyn uchod o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Caiff ei gadarnhau mai effaith y Gorchymyn fydd addasu'r Map a Datganiad Diffiniol ar gyfer yr ardal drwy ychwanegu atynt lwybr troed sy'n dechrau yng nghyfeirnod grid SO08000252 ac yn parhau ar hyd arwyneb naturiol i gyfeiriad cyffredinol ddeheuol am tua 955 metr a gorffen wrth gyfeirnod grid SO08260162. Mae'r lled rhwng 2 a 3 metr.

Mae copi o'r Gorchymyn a Map y Gorchymyn ar gael i'w gweld am ddim yn Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ rhwng 0900 a 1700 ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn a'r map yno am £10.

Daeth y Gorchymyn i rym ar 26 Gorffennaf 2016 ond os oes unrhyw berson a dramgwyddwyd gan y Gorchymyn am gwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth sy'n gynwysedig ynddo ar y sail nad yw oddi fewn i bwerau Deddf Bywyd Gwyllt Chefn Gwlad 1981 neu ar y sail nad yw'n cydsynio ag unrhyw ofynion unrhyw Ddeddf neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gall e neu hi, o dan baragraff 12(1) Atodlen 15 y Ddeddf, wneud cais i'r Uchel Lys ymhen 6 mis o 1 Awst 2016.

**Dyddiedig** 1 Awst 2016

**C M Kennedy,**
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,
Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell,
Merthyr Tudful, CF47 8AN

-------------------------------------

**HYSBYSIAD O GADARNHAU GORCHYMYN ADDASU DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL 205 TROEDYRHIW 2015**

Ar 26 Gorffennaf 1016 cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y Gorchymyn uchod o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Caiff ei gadarnhau mai effaith y Gorchymyn fydd addasu'r Map a Datganiad Diffiniol ar gyfer yr ardal drwy ychwanegu atynt lwybr troed sy'n dechrau yng nghyfeirnod grid SO07090325 ac yn parhau i gyfeiriad cyffredinol de-ddwyreiniol yn serth i fyny'r allt am tua 511 medr i gât cael yng nghyfeirnod grid SO07530299. Yna, bydd yn parhau am tua 220 medr ar hyd tir gwastad i gyfeirnod grid SO07580320. Yma, mae'n troi'n ôl i gyfeiriad cyffredinol de-ddwyreiniol ac yn parhau yn serth i fyny'r allt am tua 826 metr i gyfeirnod grid SO08000252. Yna, mae'n parhau i gyfeiriad cyffredinol dwyreiniol am tua 95 metr ar hyd tir mwy gwastad gan derfynu yng nghyfeirnod grid SO08100253. Mae'r arwyneb yn naturiol. Mae ei hyd tua 1,652 metr. Mae'r lled rhwng 4 a 6 metr.

Mae copi o'r Gorchymyn a Map y Gorchymyn ar gael i'w gweld am ddim yn Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ rhwng 0900 a 1700 ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn a'r map yno am £10.

Daeth y Gorchymyn i rym ar 26 Gorffennaf 2016 ond os oes unrhyw berson a dramgwyddwyd gan y Gorchymyn am gwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth sy'n gynwysedig ynddo ar y sail nad yw oddi fewn i bwerau Deddf Bywyd Gwyllt Chefn Gwlad 1981 neu ar y sail nad yw'n cydsynio ag unrhyw ofynion unrhyw Ddeddf neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gall e neu hi, o dan baragraff 12(1) Atodlen 15 y Ddeddf, wneud cais i'r Uchel Lys ymhen 6 mis o 1 Awst 2016.

**Dyddiedig** 1 Awst 2016

**C M Kennedy,**
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,
Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell,
Merthyr Tudful, CF47 8AN

-------------------------------------

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

**TREFNIADAU HWYR GWYLIAU HAF**

Bydd y Ganolfan Ddinesig a swyddfeydd ac adrannau eraill y Cyngor ar gau ar y diwrnod canlynol:

**Dydd Llun, Awst 29 2016**

AMSERLEN CASGLU YSBWRIEL / AILGYLCHU O'R PALMANT

| **Diwrnod casglu arferol** | **Pryd byddwn yn casglu** |
|---|---|
| **Dydd Llun** 29 Awst | **Dydd Mawrth** 30 Awst |
| **Dydd Mawrth** 30 Awst | **Dydd Mercher** 31 Awst |
| **Dydd Mercher** 31 Awst | **Dydd Iau** 1 Medi |
| **Dydd Iau** 1 Medi | **Dydd Gwener** 2 Medi |
| **Dydd Gwener** 2 Medi | **Dydd Sadwrn** 3 Medi |
| **Dydd Llun** 5 Medi | Casgliadau arferol |

**CANOLFANNAU AILGYLCHU**

Ar agor fel arfer - oriau agor yr haf (9:00yb – 8:00yh)

**SWYDDFEYDD COFRESTRU**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun 29 Awst | Ar gau |

**PROBLEMAU CARTHFFOSIAETH - ACHOSION BRYS**

Y rhif ffôn ar gyfer achosion brys yn ymwneud â charthffosiaeth yng nghartrefi Merthyr Valley Homes yn ystod y gwyliau yw (01685) 385231. Gyda phroblemau carthffosiaeth mewn tai ac eiddo eraill ffoniwch D r Cymru ar 08000 853968.

**GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Bydd Swyddfa'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cau am 4.30yp ar ddydd Gwener 26 Awst 2016 ac yn ailagor am 8.30yb ar ddydd Mawrth 30 Awst 2016. Os oes argyfwng yn ystod y gwyliau, cysylltwch â'r Tîm Dyletswydd Argyfwng ar 01443 743665

**TREFNIADAU GWYLIAU BANC CLADDU**

Bydd Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth ar gau ar ddydd Llun 29 Awst 2016

**Trefnir ceisiadau am angladd fel a ganlyn:**

| **Dyddiad derbyn cais claddu:** | **Dyddiad yr Angladd:** |
|---|---|
| Dydd Mercher 24 Awst | Dydd Mawrth 30 Awst |
| Dydd Iau 25 Awst | Dydd Mercher 31 Awst |
| Dydd Gwener 26 Awst | Dydd Iau 1 Medi |
| Dydd Mawrth 30 Awst | Dydd Gwener 2 Medi |

Bydd y swyddfa ar agor fel arfer o ddydd Mawrth 30 Awst 2016

Hoffwn eich atgoffa na fyddwn yn claddu ar ddydd Sul, Dydd Gwener y Groglith, Dydd Llun y Pasg, nac ychwaith ar yl y Banc neu unrhyw ddiwrnod arall sydd wedi ei neilltuo fel dydd o ddiolchgarwch neu alar cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys achosion o argyfwng i'w tystio gan Grwner neu Feddyg Cofrestredig. Mewn amgylchiadau fel hyn gallwn gladdu cyn hanner dydd.

Os oes gennych chi unrhyw anhawster ynghylch y trefniadau hyn, ffoniwch Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth ar 01685 725145 cyn gynted â phosib.

Sylwch bydd holl fynwentydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar agor i bawb ar bob diwrnod o'r flwyddyn cyhyd â bod y tywydd yn caniatáu, gan gynnwys Diwrnod Nadolig.

Gareth Chapman
Prif Weithredwr